

## Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur  
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS  
Ffôn: 02920 490582  
E-bost: aluntudur@btinternet.com

## Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
Ffôn: 01766 513138  
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
Ffôn: 01267 232577 /  
0781 751 9039  
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

## Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe  
ABERTAWE SA7 0AJ  
Ffôn: 01792 795888  
E-bost: undeb@annibynwyr.org

## Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen  
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r  
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â  
chynnwys y Pedair Tudalen.

## BODLONI'R CORFF A'R ENAID

Pererindod Capeli  
Ceinewydd

Rhaid i bob capel gael  
diwrnod i'r brenin a dyna  
gafwyd ar Sul olaf mis  
Mehafin pan aeth aelodau o  
gapeli'r cylch uchod am eu  
gwibdaith flynyddol. Eleni,  
troi am Lanymddyfri wnaeth  
yr aelodau a hynny er mwyn



dathlu geni un o emynwyr mwyaf ein gwlad  
sef William Williams. Wrth gwrs, roedd yn  
rhaid aros am seibant mewn lle moethus, sef  
Gwesty Glyn Hebog yn Llanbed.

## Llanfair-ar-y-bryn

Yna i'r Kings Head yn Lanymddyfri am  
ginio dydd Sul blasus. Penderfynwyd peidio  
cael pwddin - fe ddeallwch pam yn nes  
ymlaen. Wedi bodloni'r corff, ymlaen wedyn  
i fodloni'r enaid a dechrau yn Eglwys  
Llanfair-ar-y-bryn lle claddwyd William  
Williams. Yma, cawsom fanteisio ar  
wybodaeth Mr Dai Gealy am hanes yr eglwys  
a hanes cysylltiad William Williams â'r  
eglwys. Parhawyd i'n goleuo gan Gareth Ioan  
a roddodd grynodedd o sut le oedd Lanym-  
ddyfri o fewn cyd-destun yr oes. Mae ffenestr  
liw arbennig iawn yn yr eglwys hon gyda'r  
ffenestr yn bwrw golau fel pe bai'r machlud  
i'w weld trwyddi ar bob adeg o'r dydd.

## Pantycelyn

Ymlaen wedyn at uchafbwynt y daith sef  
cynnal gwasanaeth ym Mhantycelyn. Nid  
pawb fyddai'n barod i agor eu cartref yn  
feunyddiol ond mae Mr a Mrs Williams y

perchnogion presennol yn bobl mor hawddgar  
a dymunol ac y maent yn trin pawb fel  
cyfeillion mynwsol. Mae Mr Williams yn un  
o ddisgynyddion yr emynydd. Dyna gamp,  
mae'r un teulu yn dal i fod yn yr un cartref ers  
300 mlynedd. Llwyddwyd i wasgu'r 33 oedd  
ar y daith i mewn i stafell fyw Pantycelyn a  
chafwyd cyfle i gofio am William Williams yn  
ogystal â chofio am y person oedd yn  
wrthrych i'w emynau sef Iesu Grist. Gwefr, yn  
wir, oedd cael cynnal oedfa a chanu'r emynau  
yn y llecyn arbennig hwn o Gymru.

## Myddfai

Erbyn gadael Pantycelyn roedd yn amser te a  
chafwyd te prynhawn ardderchog yn neuadd  
Myddfai. Dyma neuadd gymunedol sydd yn  
tynnu aelodau'r gymdeithas at ei gilydd gyda  
llawer ohonynt yn gweithio'n wirfoddol naill  
ai yn y siop neu yn y caffi sydd hefyd yn rhan  
o'r neuadd. Wrth gwrs, ym Myddfai rhaid  
oedd cael hanes y pentref a chwedl o'r ardal  
sef hanes Llyn y Fan Fach a phwy'n well i'n  
diddori na Lyn Richards ac Emlyn Morgan,  
dau frodor o'r ardal. Aeth pawb am adre  
wedi cael diwrnod i'w gofio.

Mair Heulyn

## CYSGOD Y GROES

Yn ystod Cynhadledd Annibynwyr y Byd yn  
Stellenbosch, De Affrica, fe aeth y  
cynrychiolwyr ar ymweliad â threfgordd  
Kayamandi lle y gwelsom gyflwr byw tlawd  
rhai o bobl dduon y wlad. Er bod y trigolion  
yn hynod groesawus tuag atom yr oedd nifer  
ohonom yn anghyffyrddus gan ein bod yn  
teimlo ein bod yn tarfu ac yn busnesu yn  
eu cymuned a'u cartrefi. Yn ystod yr  
ymweliad tynnodd Dr R. Alun Evans y  
llun trawiadol hwn o gysgod croes yn  
Kayamandi. Daw geiriau iasol Iesu o  
Mathew 25 i'r meddwl,  
'Yna atebant hwythau: "Arglwydd,"  
gofynnant, "pryd y'th welsom di'n  
newynog neu'n sychedig neu'n ddieithr  
neu'n noeth neu'n glaf neu yng ngharchar  
heb weini arnat?" A bydd ef yn eu hateb,  
"Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich, yn  
gymaint ag ichwi beidio â'i wneud i un  
o'r rhai lleiaf hyn, nis gwnaethoch i



minnau chwaith." Ac fe â'r rhain ymaith i  
gosb dragwyddol, ond y rhai cyfiawn i fywyd  
tragwyddol.' (Mat 25:44-46)


Dyletswydd a brait pob Cristion wrth  
wasanaethu'r Arglwydd yw brwydro dros  
gyfiawnder gan ddileu tlodi ym mhob man y  
maent. Bydd rhagor o hanes y gynhadledd yn  
Ne Affrica mewn rhifynnau dilynol o'r Tyst.

## Cylch Cyfeillion

Yn y llun gwelir ein gweinidog y Parchg Gwyn  
Elfn Jones yn cyflwyno sic o fil o bunnoedd  
i'r Parkinson's Treatment Centre drwy law Mrs  
Sheila O'Neill, y bu farw ei gŵr o'r salwch  
llynedd. Mae aelodau Bethesda, Y Tymbl, wedi  
bod yn cwrdd â'i gilydd a chyd ffrindiau bob  
yn ail fore ddydd lau mewn clwb o'r enw  
**Cylch Cyfeillion** (Circle of Friends) yn weddol  
gyson dros y flwyddyn ddiwethaf i gael  
cwpanaid o de neu goffi a chlonec a chwmniaeth  
- ac ambell fisgeden! Does dim cost am y te  
ond gall rhywun adael cyfraniad i'r elusen y  
byddwn yn ei chefnogi yn ystod y flwyddyn.  
Casglwyd pum can punt eleni a bu Mrs Sheila  
O'Neill yn ddigon caredig i gyflwyno pum can  
punt ychwanegol y mae hi wedi casglu yn ei  
siop trin gwallt er mwyn gallu cyflwyno sic o  
fil o bunnoedd i anfon at yr elusen.



Mae croeso i unrhyw un i ddod draw i  
fwynhau'r gwmniaeth - mae pawb yn cael y  
cyfle i siarad gyda'i gilydd drwy'r trwch.  
Mae'n gyfle hefyd i weld hen ffrindiau a  
gobeithio cwrdd â ffrindiau newydd. Bydd yr  
arian y byddwn yn ei gasglu yn y flwyddyn  
sy'n dechrau yn awr yn mynd tuag at elusen  
Multiple Sclerosis. **Elen Davies**



150  
1867-2017  
PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG  
**Y TYST**  
Sefydlwyd 1867 Cyfrol 150 Rhif 30 Gorffennaf 27, 2017 50c.

GWASANAETH CRIST  
YN FYD-EANG

Etholwyd y Dr Hefin  
Jones, Uwch  
Ddarlithydd yn Ysgol y  
Biowyddorau ym  
Mhrifysgol Caerdydd ac  
aelod blaenllaw o Undeb  
yr Annibynwyr  
Cymraeg, yn aelod o  
Bwyllgor Gweinyddol  
Cymundeb Eglwys  
Diwygiedig y Byd yn  
Leipzig, yr Almaen, yn  
gynharach y mis hwn.

Yn frodor o Bencader  
yn Sir Gaerfyrddin ond  
bellach yn byw yng Nghaerdydd, enwebwyd



fod Hefin wedi ei ethol yn aelod llawn o'r  
Hefin gan Undeb yr Annibynwyr  
Cymraeg, ac ychwanegwyd ei enw  
at restr o fwy na 60 o enwau oedd  
wedi eu cynnig gan amrywio  
eglwys ac undebau eglwysig o  
amgylch y byd.

Gan fod tri cham i'r proses ethol,  
rhaid oedd aros rhai dyddiau am y  
canlyniad yn ystod cynhadledd yr  
oedd y Cymundeb wedi ei threfnu  
yn Leipzig ar ddiwedd Mehafin a  
dechrau Gorffennaf eleni i ddatlu  
500 mlwyddiant dechrau'r  
Diwygiad Protestannaidd yn 1517.  
Pan ddaeth y cyhoeddiad, cafwyd

## Agor pennod newydd ym Mangor

Cynhaliwyd oedfa arbennig ar 9 Gorffennaf dan  
lywyddiaeth y Parchedig Olaf Davies i ddatlu hanes capel  
Pendref ac i edrych ymlaen at agor pennod newydd yn  
hanes Ymneilltuaeth Bangor wrth i Annibynwyr Pendref a  
Bedyddwyr Penuel ddod at ei gilydd i ffurfio Eglwys  
Gydenwadol Emaus. Cyfarchwyd plant a ieuencid yr  
eglwys gan y Parchedig Ddr  
Huw John Hughes a  
thraddodwyd pregeth rymus  
gan y Parchedig John  
Gwilym Jones. Cyflwynwyd  
dymuniadau gorau Cyfundeb  
Gogledd Arfon gan Ifor Glyn,  
Ysgrifennydd y Cyfundeb.  
Roedd côr y plant yn llawn  
hwyl a darlenniad Gethin Elis  
o hanes y daith i Emaus yn gosod y cywair priodol o'r  
cychwyn. Daeth yr oedfa i'w therfyn yn swm emyn Peter  
Thomas, 'Cerddwn ymlaen i'r yfory', a'r canu yn codi'r to i  
gyfeiliant ysbrydoledig Dafydd Tecwyn Ellis wrth yr organ.



Y Parchedigion Huw John Hughes, Olaf Davies  
a John Gwilym Jones



Plant Eglwys Emaus yn eu helfen

## EGLWYS ANNIBYNNOL LLANFAIRFECHAN

Dyma grynodeb o'r adroddiad a gafwyd yng  
Nghwrdd Chwarter Arfon gan Mrs Rhiannon  
Hughes o Eglwys Annibynnol Llanfairfechan  
am Eglwys Garizim a hanes yr achos yno:  
Adeiladwyd Capel Garizim yn 1862 a Chapel  
Peniel yn 1870. Fe'i hunwyd yn 1979 a'u  
galw'n Eglwys Annibynnol Llanfairfechan.  
O'r flwyddyn honno ymlaen, cynhaliwyd yr  
oedfaon yn Garizim. Ar ôl i'r Parchedig John Watkin ymddeol ni phenodwyd  
neb yn ei le fel bugail. Eleni, mae gennym 13 o aelodau a bydd 10 ohonynt yn  
mynychu'n rheolaidd. O'r 10 sy'n dod yn rheolaidd, mae'r ieuengaf yn 50 oed  
a'r hynaf yn 90 oed. Gan fod Capel Tabernacl Penmaenmawr wedi cau yn  
ddiwedd, bydd eu tri aelod yn ymuno â ni unwaith neu ddwywaith y mis.



parhad ar dudalen 2

